SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) 2015-2016

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

© Hawlfraint y Goron 2016 WG27408 ISBN digidol 978 1 4734 5709 6

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol ……………………………………………
2 Cyflwyniad ……………………………………………………...
3 Canfyddiadau'r Archwiliad ……………………………………..  .....
4 Casgliad ……………………………………………………….
5 Atodiadau ……………………………………………………..

## 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau mewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl) sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff goruchwyliaeth statudol o fydwragedd ei chyflawni'n unol â'r safonau a bennir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y mae ei fanylion wedi eu cyflwyno yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Yng Nghymru, cyflawnir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ran Gweinidogion Cymru. Mae gan yr AGLl yng Nghymru ddau Swyddog Bydwreigiaeth AGLl a benodwyd i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar ei ran.

**1.2** Canolbwynt cyffredinol goruchwylio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fu sefydlu model goruchwylio newydd a alluogodd yr AGLl a'r Byrddau Iechyd i gyflawni eu dyletswyddau statudol perthnasol. Y cefndir i'r angen am y model goruchwylio newydd yng Nghymru oedd nodi llawer o risgiau yn y model presennol yn ogystal â niferoedd cynyddol o ymddiswyddiadau a chaniatâd i fod yn absennol ymhlith Goruchwylwyr Bydwragedd na allent gydbwyso gofynion cynyddol y swyddogaeth â rhai eu swyddi parhaol.

**1.3** Cyflwynwyd y model cyfredol ar 4 Awst 2014 a chyhoeddodd yr AGLl adroddiadau archwilio ym mis Hydref 2014 i nodi'r materion i'w trosglwyddo a'r cynllun gweithredu i symud goruchwyliaeth yn ei blaen. Yn ystod blwyddyn ei weithrediad, mae'r AGLl wedi gallu darparu sicrwydd o fodloni safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth trwy ddangosyddion perfformiad allweddol tri misol, cyfarfodydd monitro a gwerthuso bob dau fis ac adolygiad llawn gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r holl brosesau archwilio hyn wedi cadarnhau bod yr AGLl yn bodloni'r holl safonau a fe'u hadroddwyd yn Adroddiad Blynyddol ac adroddiad archwilio Awdurdodau Goruchwylio Lleol Cymru Gyfan 2014-15.

**1.4** Diben archwiliad blynyddol 2015 -16 yw cadarnhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth o oruchwylio ym mhob Bwrdd Iechyd (BI) yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac i wneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus. Bydd y canfyddiadau archwilio o bob cwr o Gymru yn hysbysu'r cyfeiriad teithio i gefnogi bydwragedd pan gaiff y newidiadau deddfwriaethol eu gwneud i adael goruchwyliaeth statudol.

**1.5** Mae'r AGLl yng Nghymru wedi diwygio a mireinio'r broses ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth yn seiliedig ar gydymffurfiad â Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Cynhaliwyd yr archwiliad trwy ddull tîm gyda mewnbwn cymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Nod y broses archwilio oedd asesu pa un a oedd timau Goruchwylwyr Bydwragedd yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir bod safonau "wedi'u bodloni", "heb eu bodloni" neu fod "angen gwella". Pan na chaiff safon ei bodloni, caiff cynllun gweithredu ei gytuno'n ffurfiol â'r AGLl ac fe'i darperir yn unol ag amserlen wedi ei chytuno.

**1.6** Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa o ran goruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar adeg yr archwiliad a rhoi sicrwydd bod y model diwygiedig wedi cael ei gyflwyno'n llawn. Bydd yn cynnig uchafbwyntiau darpariaeth y model goruchwylio cyfredol sydd wedi datblygu goruchwyliaeth i fod yn ddarpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel, prydlon ac effeithiol.

**1.7 Trosolwg**

Ystyriwyd nad oedd y broses archwilio flynyddol a gyflwynwyd yn 2011 yn addas i'r diben mwyach gan fod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio'n rhan o'r AGLl erbyn hyn. Yn ystod 2014-5, canolbwyntiodd Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a benodwyd i'r model goruchwylio diwygiedig ar ddarparu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a nodwyd ym Manyleb y Gwasanaeth Goruchwyliaeth Diogelu at y Dyfodol. Cynhaliwyd y pwyslais hwn i wella a dylanwadu ymhellach ar newid arfer. Cafodd cynnydd yn erbyn y DPAau ei fonitro drwy'r Grŵp Monitro a Gwerthuso a thrwy Uwch Grŵp Arweinyddiaeth AGIC. Paratowyd adroddiadau tri misol ac fe'u rhannwyd gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth i fonitro cynnydd ymhellach a mynd i'r afael ag unrhyw heriau i gynnydd.

Er i'r AGLl nodi cydymffurfiad â holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei Adroddiad Blynyddol a'r adroddiad archwilio a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi argymell y dylai pob Bwrdd Iechyd gael ymweliad archwilio unigol a chyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Hydref 2015).

Mae'r AGLl wedi bod yn eglur o'r cychwyn mai nod y broses archwilio yw cefnogi datblygiad parhaus trwy ddenu adnoddau a hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn. Mae'r AGLl yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ailgynllunio'r broses archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf gan ei fod o'r farn bod craffu allanol ar yr AGLl yn hanfodol nawr bod y goruchwylwyr yn gweithio'n uniongyrchol i'r AGLl. Gobeithiwn y bydd personél priodol y Bwrdd Iechyd yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o'r broses archwilio fel ffordd o roi'r sicrwydd angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth, Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Bwrdd bod goruchwyliaeth statudol yn cefnogi'r gwaith o amddiffyn y cyhoedd.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC maes o law yn **www.hiw.org.uk**.

**2.1** Disgwylir i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio yn unol â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i rymuso bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol gan wella'r broses o amddiffyn y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. Er mwyn hysbysu'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau mamolaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r AGLl yn defnyddio dull adolygiad gan gymheiriaid yn erbyn holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i wirio tystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth penodol yr AGLl, o leiaf un Adolygydd Lleyg yr AGLl a Goruchwylydd Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd cyfagos. Mae hyn yn galluogi dull tîm o archwilio, yn cynnig cyfle ar gyfer adolygu a meincnodi gan gymheiriaid yn ogystal â chefnogi rhannu arfer da. Mae cynnwys adolygwyr lleyg yr AGLl yn y tîm yn sicrhau safbwynt y defnyddiwr trwy gydol y broses archwilio, a chroesawyd hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer BIPBC ar 13 a 14 Hydref 2014 fel y cynlluniwyd. Gwahoddwyd personél allweddol i fynychu yn ogystal â thîm goruchwylio'r Bwrdd Iechyd (**Atodiad A – Rhaglen Archwilio**). Bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliad ymweliad Pyramid tri misol yn ystod Chwarter 3 i adolygu cynnydd y gwelliannau yn rhan o'r cylch archwiliadau blynyddol. Darparwyd adroddiadau adborth unigol i'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn syth ar ôl yr ymweliad gan nodi meysydd o arfer da neu godi ymwybyddiaeth lle'r oedd angen datblygiad.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, Sue Jose, wedi ei chefnogi gan Oruchwylydd Bydwragedd profiadol, Karen Evans o PABM ac Adolygydd Lleyg yr AGLl, Liz David, a gwnaed y gwaith paratoi gan gynorthwyydd tîm yr AGLl, Julie Jones.

**2.5** Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda chyflwyniad trosolwg cryno gan Sue Jose ac fe'i dilynwyd gan gyflwyniad PowerPoint y Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi trosolwg o BIPBC a gweithgareddau goruchwylio yn ogystal â llwyddiannau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arfer da. Hefyd, rhoddodd yr ymweliad archwilio gyfle i gyfarfod a rhannu gwybodaeth am oruchwyliaeth gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Bydwreigiaeth, y Fydwraig Risg, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant a defnyddwyr gwasanaeth (**Atodiad B – Mynychwyr**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

**Crynodeb o ganfyddiadau archwiliad yr AGLl – risg a gwireddu manteision**

| **Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol** | | |
|---|---|---|
| **Safon AGLl / Bydwragedd Berthnasol** | **Risg / Rheolaeth Allweddol** | **Canlyniad *Bodlonwyd, Ni Fodlonwyd, Angen Gwella*** |
| **Rheol 4: Hysbysu am Fwriad i Ymarfer** | Cyflwynir gwybodaeth gywir a Hysbysiadau o Fwriad i Ymarfer yn flynyddol neu ar gyfer gweithwyr cyflogedig newydd cyn i fydwragedd ddechrau ymarfer<br><br>Caiff cofnodion cronfa ddata AGLl cywir eu cwblhau ar gyfer bydwragedd sy'n gadael y sefydliad | **BODLONWYD-<br>Rheolir y broses Hysbysu am Fwriad i Ymarfer yn effeithiol yn BIPBC. Cwblheir a chofnodir yr adroddiadau adborth Hysbysu am Fwriad i Ymarfer yn brydlon.<br><br>Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi datblygu gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer rheoli Hysbysiadau o Fwriad i Ymarfer ar gyfer bydwragedd asiantaeth y mae Goruchwylwyr Bydwragedd a phob bydwraig uwch yn ei rheoli.** |
| **Rheol 6: Cadw Cofnodion** | Mae'r bydwragedd yn cydymffurfio â systemau a ddyluniwyd i storio cofnodion clinigol yn gywir ac yn ddiogel am 25 mlynedd | **BODLONWYD-<br>Caiff cofnodion gweithgarwch Goruchwylwyr Bydwragedd eu storio'n ddiogel.<br><br>Mae rhaglen archifo wedi cychwyn ar gyfer rheoli'r cofnodion am y cyfnod gofynnol o 25 mlynedd<br><br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwybodol o'r rheolau ar gyfer rheoli cofnodion bydwragedd annibynnol.** |
| **Rheol 8: Goruchwylydd Bydwragedd** | Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd dan Hyfforddiant eu recriwtio a'u cefnogi'n briodol ar ôl cwblhau'r rhaglen paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd yn llwyddiannus | **Angen gwella-<br><br>Nid oes gan BIPBC Oruchwylydd Bydwragedd dan hyfforddiant yn cyflawni'r rhaglen paratoi Goruchwylwyr ar hyn o bryd.<br>Er bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd presennol yn sefydlog, mae'r cynllun wrth gefn yn gyfyngedig pe bai Goruchwylydd Bydwragedd yn y tîm presennol yn ymddiswyddo** |
| **Rheol 9: Adnoddau priodol** | Mae cymarebau | **BODLONWYD-** |

| | | |
|---|---|---|
| **yn unol â'r gymhareb a argymhellir** | Goruchwylwyr Bydwragedd yn dal i gyd-fynd â'r gymhareb a argymhellir o 1 Goruchwylydd Bydwragedd i 15 bydwraig<br><br>Mae gan y Goruchwylydd Bydwragedd adnoddau digonol i'w cefnogi yn eu swydd | **Ceir adnoddau digonol ar hyn o bryd i fodloni'r gymhareb a argymhellir o 1 Goruchwylydd Bydwragedd i 15 bydwraig.**<br><br>**Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang fel tîm, ac mae gan bob Goruchwylydd Bydwragedd gyswllt sylfaenol â bydwragedd â gwasanaethau mamolaeth a ddarperir i'r tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Mae dau o'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn nodi nad oes ganddynt ardal weithio wedi'i diffinio yn eu hysbyty cyswllt. Cafodd hyn ei ddatrys ar adeg yr ymweliad archwilio trwy nodi a derbyn ystafell** |
| **Rheol 9: Cydymffurfiad â'r Adolygiad Goruchwylio Blynyddol** | Cynhelir Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar gyfer pob bydwraig i gynnig tystiolaeth o sut y mae pob bydwraig wedi bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal ei chofrestriad bydwreigiaeth | **BODLONWYD-**<br>**Roedd cydymffurfiad â'r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn 100% ar adeg yr ymweliad archwilio.**<br>**Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi bod yn weithredol o ran adolygu a gwella'r broses ar gyfer yr Adolygiad Goruchwylio Blynyddol** |
| **Rheol 10: Proses ymchwilio Goruchwylwyr Bydwragedd** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnal ymchwiliadau goruchwylio mewn ffordd agored, deg a phrydlon<br><br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynorthwyo bydwragedd i gwblhau argymhellion perthnasol ar gyfer myfyrio, cynlluniau gweithredu lleol neu raglenni ymarfer yr AGLl | **BODLONWYD-**<br>**Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn BIPBC yn cynnal ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd y tu allan i'w Bwrdd Iechyd mewn ffordd agored/teg a phrydlon.**<br><br>**Adolygwyd tystiolaeth yng nghronfa ddata'r AGLl o gymorth Goruchwylwyr Bydwragedd ar gwblhau argymhellion adfer o'r broses ymchwilio** |

## 3.1 Y ddarpariaeth o oruchwyliaeth effeithiol.

Mae AGLl Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o Oruchwylwyr Bydwragedd i sicrhau bod gan yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9 rheolau a safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[1] yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd yn fwy nag 1:15 fel rheol ond mae'n rhaid iddi, fel isafswm, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod.

Ar 31 Mawrth 2014, roedd 16 o Oruchwylwyr Bydwragedd llawn amser yn weithredol ac roedd 1,786 o fydwragedd wedi hysbysu'r AGLl am eu Bwriad i Ymarfer gan roi cymhareb Cymru gyfan o 1:11. O ran BIPBC, roedd 405 o fydwragedd yn weithredol a 3.0 Goruchwylydd Bydwragedd cyfwerth ag amser cyflawn, gan roi cymhareb ddiwygiedig model cyfredol o 1:12.

### 3.1.1 Penodi Goruchwylwyr Bydwragedd, dad-ddewis, ymddiswyddiad a chaniatâd i fod yn absennol

Ar ôl rhoi'r model ar waith, roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd 3.0 cyfwerth ag amser cyflawn yn cynnwys tri Goruchwylydd Bydwragedd. Dechreuodd un o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd absenoldeb mamolaeth ym mis Tachwedd 2014, ac felly symudodd darpar Oruchwylydd Bydwragedd ei chyfnod rota yn ei flaen. Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi parhau'n sefydlog hyd yn hyn heb unrhyw newid pellach ar adeg yr ymweliad archwilio. Bydd y Goruchwylydd Bydwragedd sydd ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd yn dychwelyd i'w swydd barhaol ym mis Tachwedd 2015 ac yn parhau i fod yn ddarpar Oruchwylydd Bydwragedd ar rota'r model yn ddiweddarach.

Cynhaliodd yr AGLl broses ddethol ar gyfer y rhaglen baratoi ar gyfer Goruchwylio Bydwragedd (PoSoM) y disgwylir iddi gychwyn yn ystod yr hydref yn 2015. Ni fydd unrhyw fydwraig o BIPBC yn dechrau'r cwrs. Dywedwyd wrth y tîm Archwilio y byddai'n fwy dymunol cadw aelodau presennol y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd oherwydd yr hinsawdd gyfredol. Fodd bynnag, ceir gofyniad i sicrhau adnoddau Goruchwylwyr Bydwragedd digonol ar gyfer cynllun rota hyd at fis Mawrth 2017 tra'n aros am gyfarwyddyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ran amserlen ar gyfer y newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer goruchwyliaeth statudol. Ceir un darpar Oruchwylydd Bydwragedd yn BIPBC, sy'n sefyllfa fregus i'r Bwrdd Iechyd.

[1] Rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

### 3.1.2 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd

Mae Rheol 9[2] yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd ac mae'n ofynnol bod gan bob bydwraig Oruchwylydd Bydwragedd penodol y mae'n cyfarfod ag ef o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer adolygiad goruchwylio blynyddol. 98% oedd y gyfradd gyfartalog o gydymffurfiad â'r cyfarfodydd adolygiad goruchwylio blynyddol trwy gydol blwyddyn archwilio 14 -15. 100% oedd y cydymffurfiad cyfredol ag adolygiadau goruchwylio blynyddol ar adeg yr archwiliad. Sicrhaodd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd gydymffurfiad o 100% ag adolygiadau goruchwylio blynyddol ac mae wedi cynnal hyn ers mis Gorffennaf 2015.

Mae BIPBC wedi bod yn cynnig goruchwyliaeth grŵp i fydwragedd ar gyfer eu hadolygiad goruchwylio blynyddol cyn cyflwyno'r model cyfredol. Mae goruchwyliaeth grŵp wedi'i hen sefydlu ymhlith y bydwragedd yn y Bwrdd Iechyd. Yn dilyn ymlaen o archwiliad 2014-15, ceisiwyd tystiolaeth fod y prif heriau o ran darparu goruchwyliaeth grŵp wedi eu datrys. Dyma'r heriau a nodwyd:

- sicrhau y gallai pob bydwraig fynychu sesiwn goruchwyliaeth grŵp
- bod bydwragedd o wahanol dimau yn bresennol ym mhob sesiwn grŵp.

Roedd yn well gan yr holl fydwragedd a gyfwelwyd y model goruchwylio cyfredol na'r un blaenorol. Nodwyd mai'r canlynol oedd manteision allweddol goruchwyliaeth grŵp: y cyfle i rannu'r hyn a ddysgwyd a chydnabod bod angen i bawb fyfyrio waeth faint o brofiad sydd ganddynt na pha mor uchel yw eu swydd, gan gael gwahanol safbwyntiau, ehangu gwybodaeth am gyrsiau trwy brofiadau eraill, rhannu pryderon a bod â mwy o lais. Roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn teimlo bod y myfyrdodau mewn goruchwyliaeth grŵp yn gwella amddiffyniad y cyhoedd bob tro ac roeddent yn gallu cynnig enghreifftiau o sefyllfaoedd y rhoddwyd sylw iddynt trwy oruchwyliaeth grŵp ac a arweiniodd at wella amddiffyniad y cyhoedd. Nododd un fydwraig newid arfer a gyflawnwyd trwy glywed sylwadau cydweithwyr yn ystod goruchwyliaeth grŵp.

Un grŵp bydwreigiaeth a ddywedodd eu bod wedi cael trafodaeth 1:1 ar gyfer adolygiadau goruchwylio blynyddol oedd yr uwch fydwragedd. Roedd un fydwraig uwch yn y grŵp wedi mynychu sesiwn goruchwyliaeth grŵp ac esboniodd y manteision yr oedd wedi eu cael o'r drafodaeth grŵp. Dywedodd yr uwch fydwragedd a gyfwelwyd gan y tîm archwilio y byddent yn pennu amcan personol i fynychu goruchwyliaeth grŵp o ganlyniad i hyn.

Ers cyflwyno'r model newydd, darperir rota ar-alwad Goruchwylwyr Bydwragedd 24 awr

[2] Mae Rheol 9 rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion i oruchwylydd bydwragedd.

Cymru Gyfan i bob bydwraig sy'n ymarfer yn ardal yr AGLl. Mae hyn yn cynnig mynediad 24 awr at Oruchwylydd Bydwragedd ac yn sicrhau bod Goruchwylydd Bydwragedd ar gael i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth i gynnig arweiniad a chefnogaeth (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012). Darperir rhif canolog ar gyfer cysylltu a chaiff pob cysylltiad, boed gan ddefnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r cyhoedd neu fydwragedd, eu cofnodi mewn fformat SBAR (fformat sy'n disgrifio sefyllfa, cefndir, asesiad ac argymhellion ar gyfer unrhyw fater). Caiff y tueddiadau a'r themâu eu crynhoi'n fisol a darparwyd adroddiad chwech misol i bob Pennaeth Bydwreigiaeth ym mis Ebrill 2015. Roedd y themâu a'r tueddiadau penodol i BIPBC yn cynnwys galwadau'n ymwneud â diogelu (5), a materion clinigol (5), a derbyniwyd mwyafrif y galwadau gan fydwragedd a oedd angen cymorth a chyngor proffesiynol. Ar ôl cyflwyno'r model newydd, derbyniwyd galwadau ar gyfer "uwchgyfeirio" (4). Mae tîm rheoli BIPBC yn cynnig gwasanaeth ar-alwad ar gyfer materion uwchgyfeirio sef y llwybr priodol i reoli galwadau o'r fath. Atgyfeiriwyd y galwadau a dderbyniwyd am uwchgyfeirio i rif ar-alwad y Goruchwylwyr Bydwragedd yn briodol i reolwr ar-alwad BIPBC.

Cyfarfu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl gyda Phennaeth Bydwreigiaeth BIPBC a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol bob tri mis i adolygu cydymffurfiad â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddefnyddio cerdyn sgorio tri misol. Cynhaliodd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol gyfarfodydd misol gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth i sicrhau cyfathrebu dwy ffordd eglur rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd ar bob agwedd ar y swyddogaeth oruchwylio.

Ar ôl uwchgyfeirio gohiriad hyfforddiant gorfodol (cyn mis Gorffennaf 2015), hysbyswyd y tîm Archwilio mai 77% oedd y cydymffurfiad cyfredol ar gyfer cwblhau hyfforddiant gyda nod o gydymffurfiad o 100% erbyn mis Ionawr 2016. Mae BIPBC yn darparu nifer gynyddol o sesiynau hyfforddi gorfodol ar gyfer bydwragedd ac yn cyflogi bydwragedd Banc ac Asiantaeth i ôl-lenwi meysydd clinigol.

Mae'r AGLl yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad gyda Goruchwylwyr Bydwragedd o bob cwr o Gymru. Er mai prif ddiben y cynulliad misol hwn yw rheoli cydymffurfiad â'r DPAau, mae hefyd yn galluogi Goruchwylwyr Bydwragedd i adeiladu tîm cydlynus a ffurfio rhwydwaith cefnogol. Cynigiodd yr ymgysylltiad â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl gyfle i gynnig cyngor a chymorth ychwanegol i Oruchwylwyr Bydwragedd o ran materion gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â chaniatáu'r AGLl i oruchwylio Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynllunio a gweithredu eu cynlluniau gwaith parhaus.

## 3.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth a safbwynt Adolygwyr Lleyg yr AGLl

**<u>Crynodeb o ganfyddiadau Adolygydd Lleyg yr AGLl</u>**

Wrth gymryd rhan lawn yn y broses archwilio, roedd gan yr adolygydd lleyg ddiddordeb arbennig mewn adeiladu ar y canfyddiadau o adroddiad archwilio 2014/15, a deall yn benodol safbwyntiau menywod a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth ac yn ystyried profiadau menywod sy'n defnyddio goruchwyliaeth. Siaradodd y tîm archwilio â deg o fenywod ar y wardiau cynenedigol mewn tri lleoliad yn bennaf, cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, a nifer o fydwragedd a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd.

Roedd yr ymwybyddiaeth ymhlith menywod o Oruchwylwyr Bydwragedd a'r swyddogaeth y gallant ei chyflawni i gefnogi menywod yr uchaf a gofnodwyd mewn tair blynedd, wrth i ddwy o bob deg menyw adnabod y term "goruchwylydd bydwragedd". Roedd y menywod yn gallu esbonio swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd gyda bydwragedd er mai prin oedd eu hymwybyddiaeth o sut y gallai Goruchwylwyr Bydwragedd gefnogi menywod. Dywedodd un o'r myfyrwyr hefyd bod menyw wedi gofyn iddi a allai gysylltu â goruchwylydd yn uniongyrchol. Ceir tystiolaeth eglur fod y Goruchwylwyr Bydwragedd ar gael i fenywod a bod hyn yn effeithiol, gan fod rhagor o fenywod yn ymwybodol o oruchwylwyr a'u swyddogaeth. Ni wnaeth yr archwiliad hwn asesu bodlonrwydd menywod a oedd wedi cysylltu â goruchwylydd. Dywedodd yr holl fenywod eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal iddynt ei dderbyn yn y gymuned ac ar y wardiau esgor, cynenedigol ac ôl-enedigol.

Cadarnhaodd cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth bod y goruchwylwyr yn fynychwyr rheolaidd o gyfarfodydd y Pwyllgor a bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl wedi mynychu i esbonio'r newidiadau i'r model goruchwylio yng Nghymru yn 2014. Cadarnhaodd bod y goruchwylwyr wedi cyfarfod â menywod a thrafod eu pryderon a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu dull synhwyrol ac amlwg. Roedd yn gwybod am y drefn ar-alwad a sut i gysylltu â goruchwylydd ac yn teimlo y bu gwaith codi ymwybyddiaeth da gyda menywod, er bod rhywfaint o ddryswch o hyd am y gwahaniaeth rhwng swyddogaethau goruchwylwyr a rheolwyr.

Mae hygyrchedd goruchwylwyr bydwragedd i fenywod yn dal i fod yn dda. Mae tudalennau gwe BIPBC yn ymwneud â goruchwylwyr bydwragedd yn cynnwys dolen eglur ac uniongyrchol at daflen *"Ydyn ni'n Esgor ar Wasanaeth Da"* Cymru gyfan a disgrifiad eglur o sut y gall goruchwylwyr gefnogi menywod yn ogystal â'r rhif ar-alwad. Mae'r cynllun

trosglwyddo i'r model newydd ar gael ar y wefan, ond mae'n hen. Byddai'n fuddiol pe bai'r adroddiad blynyddol cyfredol yn cael ei wneud ar gael fel gwybodaeth fwy cyfredol i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae hysbysfyrddau goruchwylwyr bydwragedd ar gael yn gyhoeddus yn y rhan fwyaf o feysydd o'r gwasanaethau mamolaeth. Ar adeg yr ymweliad, roedd nifer o'r hysbysfyrddau yn canolbwyntio ar ail-ddilysu a darparu gwybodaeth i fydwragedd, er i rai gadw'r wybodaeth fwy cyffredinol am y swyddogaeth Goruchwylydd Bydwragedd, gan gynnwys y rhif ar-alwad. Ceir disgrifiad da ar yr hysbysfyrddau hyn o swyddogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd a rhywfaint o esboniad o sut y gall goruchwylwyr gefnogi menywod. Roedd un o'r menywod a oedd yn gwybod am oruchwylwyr bydwragedd wedi cael gafael ar y wybodaeth hon o'r hysbysfwrdd Goruchwylwyr Bydwragedd wrth y fynedfa i'r ward, gan amlygu eu pwysigrwydd a'u heffeithiolrwydd. Argymhellir y dylid cadw o leiaf un hysbysfwrdd cyffredinol mewn lleoliad amlwg. Roed y daflen *"Ydyn ni'n Esgor ar Wasanaeth Da"* ar gael ar rai hysbysfyrddau ond nid un unrhyw un o'r raciau gwybodaeth nac mewn mannau eraill yn y tri lleoliad i ni ymweld â nhw. Roedd taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, *"Supervisors of Midwives, How they Can Help You"* ar gael mewn rhai mannau.

Canfu'r archwiliad ffôn o gyfraddau ymateb ar-alwad a gynhaliwyd gan Adolygwyr Lleyg yr AGLl ym mis Ionawr 2015 bod y tri phrif ysbyty mamolaeth yn BIPBC yn darparu'r rhif ar-alwad cywir pan gysylltwyd â nhw. Cysylltwyd ag un feddygfa gofal sylfaenol nad oedd yn ymwybodol o swyddogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd ac nad oedd yn gallu darparu'r rhif ffôn. Ffoniodd yr adolygydd lleyg y switsfwrdd yn ysbyty Glan Clwyd cyn yr archwiliad cyfredol a derbyniodd y rhif ar-alwad cywir ar unwaith a chynigwyd y cyfle i gael ei drosglwyddo'n uniongyrchol.

## 3.3 Ail-ddilysu

Un o ddiddordebau eraill yr Adolygydd Lleyg oedd canfod dealltwriaeth a pharatoad bydwragedd ar gyfer ail-ddilysu. Roedd gan yr holl fydwragedd a'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ymwybyddiaeth dda o ail-ddilysu a nodwyd Goruchwylwyr Bydwragedd fel ffynhonnell allweddol o wybodaeth a chefnogaeth. Roedd yr hysbysfyrddau Goruchwylwyr Bydwragedd wrthi'n cael eu diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf a thempledi gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yr elfen y soniwyd amdani fwyaf o ran ail-ddilysu a'r gofyniad portffolio oedd y myfyrdodau sy'n ofynnol ac roedd bydwragedd yn awyddus i gael cymorth gyda hyn. Bydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn profi grwpiau myfyrio yn seiliedig ar y model goruchwylio grŵp o fis Rhagfyr ac mae hyn yn cael ei groesawu'n eang.

Roedd y mwyafrif yn ymwybodol o'r gofyniad adborth ac roedd yn ymddangos bod mwyafrif y bydwragedd wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i sut y byddent yn cael gafael ar adborth gan fenywod. Roedd y dulliau mwyaf cyffredin a nodwyd o gasglu adborth gan fenywod yn cynnwys derbyn cardiau a llythyrau ac, yn fwy systematig, nodwyd y grwpiau defnyddwyr "did we deliver" ac "I want better care" gan uwch reolwyr fel ffynhonnell o adborth. Roeddem yn hyderus bod systemau ar waith ar gyfer casglu safbwyntiau menywod a hysbysu adborth amdanynt.

## 3.4 Ymgysylltu â bydwragedd dan hyfforddiant

Mae myfyrwyr dan hyfforddiant BIPBC yn mynychu Prifysgol Bangor, sy'n sefydliad addysg a gymeradwywyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Diben ymgysylltu yw sicrhau bod myfyrwyr yn gyfarwydd â chysyniad a phwysigrwydd goruchwyliaeth i baratoi ar gyfer cofrestriad fel bydwraig. Cymerodd nifer o fydwragedd dan hyfforddiant o leoliadau amrywiol ran yn y cyfweliadau archwilio o bob rhan o BIPBC. Hysbysodd pob myfyriwr ac eithrio un gyswllt cadarnhaol gyda Goruchwylydd Bydwragedd, naill ai o sesiynau Prifysgol strwythuredig, "Te partis archwilio nodiadau" neu o fynychu goruchwyliaeth grŵp gyda'u mentor. Hysbyswyd yr un myfyriwr na allai gofio cyfarfod â Goruchwylydd Bydwragedd gan y grŵp a oedd wedi ymgynnull iddi fod yn bresennol mewn *"Te parti archwilio nodiadau*". Roedd y sesiynau Prifysgol a gefnogwyd gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi'u gwerthuso'n dda. Adroddwyd perthynas dda rhwng cyfadran y Brifysgol a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd.

## 3.5 Y broses ymchwilio

Hysbyswyd yr AGLI am dri ymchwiliad Goruchwylwyr Bydwragedd trwy gronfa ddata'r AGLI, a chawsant eu cychwyn neu eu cwblhau rhwng 1 Awst 2014 a 31 Gorffennaf 2015. Cwblhawyd un o'r tri ymchwiliad yn unol â'r amserlen o 45 diwrnod. Cwblhawyd y ddau ymchwiliad na gawsant eu cwblhau o fewn 45 diwrnod ar ôl 55 diwrnod a 60 diwrnod. Byddai'r Bwrdd Iechyd yn argymell y dylai'r AGLI ystyried sut y gall barhau i ddarparu canlyniadau prydlon i ymchwiliadau i sicrhau y gellir adfer bydwragedd lle caiff problemau eu nodi. Nodwyd yn yr ymweliad bod un Cynllun Gweithredu Lleol heb ei gyflawni a dilynwyd hwnnw a'i ddirwyn i ben yn syth ar ôl yr ymweliad archwilio.

Hysbyswyd y tîm archwilio bod gan BIPBC fframwaith llywodraethu llym ar waith, ac y byddai'n anarferol i ymchwiliad Goruchwylydd Bydwragedd gael ei gynnal ar wahân. Roedd hyn yn achosi heriau o ran ailadrodd proses i fydwragedd. Nodwyd y dylai'r ddwy broses,

pan yn bosibl, redeg ar y cyd tra bod goruchwyliaeth dal i fod yn rhan o'r statud, i weithio tuag at drosglwyddo i brosesau'r GIG. Her arall a ddaeth i'r amlwg oedd swyddogaeth y Goruchwylydd Bydwragedd o gynnal ymchwiliadau allanol (yn unol â'r Fanyleb Person). Teimlwyd bod hyn wedi cael effaith ar amlygrwydd y Goruchwylwyr Bydwragedd a'u gallu i wneud gwaith allweddol yn BIPBC.

Cyflwynwyd tystiolaeth i nifer o gyfweliadau bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi'u cynrychioli yn y fforymau llywodraethu perthnasol yn BIPBC, gyda chysylltiadau da a rhyngwyneb cryf. Hysbyswyd y tîm Archwilio bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi bod yn gefnogol trwy gydol problemau diweddar y Bwrdd Iechyd i ad-drefnu arfaethedig ac ymgynghoriad cyhoeddus dilynol, a'u bod wedi cyflawni swyddogaeth flaenllaw o ran sicrhau bod menywod yn ganolog i ofal.

Ystyriwyd bod yr arfer o annog a chynnwys cynrychiolwyr staff i fod yn bresennol mewn archwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd yn gadarnhaol. Roedd y gwahoddiad i gynrychiolwyr staff fynychu gweithdy ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd o gymorth i greu cysylltiadau a galluogi'r ddealltwriaeth o broses a all feithrin cefnogaeth well i fydwragedd. Dywedwyd bod goruchwyliaeth ar ei gorau erioed o ran adfer i fydwragedd i gynnig tystiolaeth o'r hyn a ddysgwyd wrth wynebu proses ddisgyblu.

## 3.6 Arfer Nodedig ac Arloesol

### Arfer Da

- Mae tîm Goruchwylwyr Bydwragedd BIPBC wedi bod yn hollbwysig yn y gwaith o ddatblygu "Te partis archwilio nodiadau" ledled Cymru
- Mae BIPBC yn paratoi erthygl i gael ei chyhoeddi yn y British Journal of Midwifery yn hyrwyddo rhinwedd goruchwyliaeth grŵp
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd BIPBC wedi bod yn hollbwysig yn y gwaith o greu'r rhaglen Preceptoriaeth Cymru Gyfan arfaethedig
- Darparwyd tystiolaeth gan y Goruchwylwyr Bydwragedd a'r uwch dîm o'r cysylltiadau cadarn rhwng y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd a fforymau llywodraethu BIPBC
- Roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio system newydd o gyflwyno gwahoddiadau i oruchwyliaeth grŵp wedi'i chytuno a'i chefnogi gan y Pennaeth Bydwreigiaeth
- Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd BIPBC gysylltiadau/amlygrwydd effeithiol gyda chyfadran Prifysgol Bangor a bydwragedd dan hyfforddiant.

## Meysydd i'w gwella

- Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnwys eu hunain yn strategaethau allweddol y Bwrdd Iechyd e.e. adolygu a chynorthwyo bydwragedd i atal y gostyngiad i nifer y genedigaethau AMU
- Parhau i gefnogi trosglwyddiad bydwragedd i ailddilysu
- Sicrhau cyfathrebiad effeithiol o leoliad swyddfa newydd i fydwragedd
- Ystyried cyhoeddi rota canolog o argaeledd Goruchwylwyr Bydwragedd yn y Bwrdd Iechyd
- Gellid gwella cynnwys yr hysbysfyrddau trwy ychwanegu enghreifftiau penodol o bryd y mae'n briodol i fenyw gysylltu â goruchwylydd.
- Ni ddylai hysbysfyrddau ar gyfer negeseuon ailddilysu ddisodli gwybodaeth i fenywod
- Mae'r cynllun trosglwyddo i'r model newydd ar gael ar y wefan, ond mae'n hen. Byddai'n fuddiol pe bai'r adroddiad blynyddol cyfredol yn cael ei wneud ar gael fel gwybodaeth fwy cyfredol i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Siaradodd bydwragedd â'r tîm archwilio am gael gwared ar oruchwyliaeth ar ôl cael gwared ar y statud. Dylai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ddechrau defnyddio iaith "pontio" o statud i orchymyn yn hytrach na disodli.

I grynhoi, mae'r archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi dangos bod holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi'u **Bodloni**, ond aseswyd bod "Angen gwella" un safon, yn ymwneud â chynllunio olyniaeth.

## 4 Casgliad

Mae'r AGLI yn ddiolchgar i holl Oruchwylwyr Bydwragedd y gorffennol a'r presennol am eu mewnbwn a'u hymroddiad i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol a'r cyfraniad y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud at gefnogi bydwragedd i gefnogi menywod. Rydym o'r farn bod y model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru yn cynnig eglurder swyddogaeth i Oruchwylwyr Bydwragedd a sicrwydd i Fyrddau Iechyd bod gofynion statudol wedi'u bodloni. Ers cyflwyno'r model newydd, bu gwelliannau i ansawdd adroddiadau ymchwilio, mwy o gydymffurfiad â'r broses adolygiadau goruchwylio blynyddol ynghyd â llwyddiannau a gydnabyddir ledled Cymru. Y neges bendant gan BIPBC yw'r pwyslais y mae'n ei roi ar y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei swyddogaeth gefnogol i fenywod, y fframwaith llywodraethu, bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant a'r uwch dîm, a derbyniwyd llawer iawn o adborth cadarnhaol. Mae hyn ar adeg pan fo'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio o dan "*Fesurau Arbennig*" gyda Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn destun "*Adolygiad eithriadol*" gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Nid oes amheuaeth mae'r her fwyaf i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol ar draws y DU fydd cynnal y momentwm a'r ymrwymiad i'r swyddogaeth tra bod newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael effaith. Mae'r AGLI yng Nghymru o'r farn ei fod mewn sefyllfa gryfach er nad ydym yn hunanfodlon, gan gydnabod y bydd angen i ni weithio'n galed i gadw Goruchwylwyr Bydwragedd yn y swyddogaeth wrth i gyfleoedd eraill godi. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod gennym dîm o ansawdd uchel a ymunodd â'r model gan ei fod eisiau gwneud gwahaniaeth i fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, ond hefyd i gydweithwyr bydwreigiaeth a allai fod yn wynebu ad-drefnu sylweddol yn ystod y misoedd nesaf.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae'r AGLI wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth a chynrychiolwyr gweithle ym mhob Bwrdd Iechyd ledled Cymru, i alinio proses ymchwilio Goruchwylwyr Bydwragedd, lle'n bosibl, gyda phrosesau ymchwilio Byrddau Iechyd. Mae'r cyfeiriad teithio hwn yn gam ymlaen i rannu'r sgiliau a'r arbenigedd o broses ymchwilio'r Goruchwylwyr Bydwragedd. Blaenoriaeth allweddol arall fydd proses llywodraethu gwybodaeth gadarn ar gyfer storio cofnodion Goruchwylwyr Bydwragedd yn ddiogel, yn enwedig y broses ymchwilio y mae'n ofynnol ei harchifo am 25 mlynedd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm presennol o Oruchwylwyr Bydwragedd i ddangos bod goruchwyliaeth yn adnodd gwerthfawr i'r proffesiwn bydwreigiaeth. Caiff canfyddiadau'r

archwiliad ac elfennau allweddol y model eu defnyddio i ddatblygu model goruchwylio’r dyfodol yn unol â’r gorchymyn, a fydd yn canolbwyntio ar ddimensiynau cefnogaeth, datblygiad ac arweinyddiaeth y swyddogaeth oruchwylio.

**Atodiad A**

**AGLl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

**Rhaglen Archwiliad Blynyddol o Safonau ar gyfer Goruchwylio Bydwragedd Archwiliad yr AGLl o Oruchwyliaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Dydd Mawrth 13 Hydref 2015 (Diwrnod 1)**

**Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno**

**Tîm Adolygu'r AGLl**

Sue Jose:  Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl

Karen Evans: Goruchwylydd Bydwragedd, BIPABM

Elizabeth David: Adolygydd Lleyg yr AGLl

**Agenda**

<table>
<tr><th>Amser</th><th colspan="2">Cyfarfod/Eitem</th><th>Presennol</th><th>Lleoliad</th></tr>
<tr><td>9:30</td><td colspan="2">Cyrraedd Derbynfa Llywodraeth Cymru</td><td>Pawb</td><td>Derbynfa Llywodraeth Cymru</td></tr>
<tr><td>10:00</td><td colspan="2">Cyflwyniad a chroeso gan dîm adolygu'r AGLI</td><td>Pawb</td><td>"Rhos" (A1.22)</td></tr>
<tr><td>10:15</td><td colspan="2">Cyflwyniad o lwyddiannau Goruchwylwyr Bydwragedd gan gynnwys adolygiad o gynnydd cerdyn sgorio Ch2 hyd yn hyn yn 2015/16</td><td>Tîm Adolygu'r AGLI<br>Fiona Giraud<br>Goruchwylwyr Bydwragedd BIPBC<br>A'r tîm rheoli a restrir</td><td>"Rhos" (A1.22)</td></tr>
<tr><td>10.45</td><td>Cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio</td><td rowspan="2">10.45 – 11.45: paned i'r rhai sy'n aros tra bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal</td><td>Tîm Adolygu'r AGLI<br>Angela Hopkins</td><td>"Rhos" (A1.22)</td></tr>
<tr><td>11:15</td><td>Cyfarfod gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth</td><td>Tîm Adolygu'r AGLI<br>Fiona Giraud</td><td>"Rhos" (A1.22)</td></tr>
<tr><td>11:45</td><td colspan="2">Cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli</td><td>Tîm Adolygu'r AGLI<br>Heledd Jones<br>Sharn Jones<br>Sali Williams<br>Dave Farmer<br>Sian Youssef<br>Julie Reeve<br>Jan Quarmby</td><td>"Rhos" (A1.22)</td></tr>
<tr><td>12:15</td><td colspan="2">Cyfarfod gyda Chynrychiolwyr Gweithle</td><td>Tîm Adolygu'r AGLI<br>Kath Jones</td><td>"Rhos" (A1.22)</td></tr>
</table>

| Amser | Cyfarfod/Eitem | Presennol | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| | | Jenie Dean<br>Jenny Jones | |
| 12:45 | Cyfarfod gyda'r Arweinydd Addysg | Tîm Adolygu'r AGLI<br>Lynne Edgerton | "Rhos" (A1.22) |
| 13:15 | CINIO (FFREUTUR LLYWODRAETH CYMRU) | | |
| 14:00 | Tîm Adolygu'r AGLI i deithio i Ysbyty Gwynedd (cludiant i gael ei ddarparu gan Oruchwylwyr Bydwragedd BIPBC) | | |
| 14:30 | Taith o gwmpas yr Uned – cyfarfod gyda defnyddwyr gwasanaeth<br><br>Cyfarfod ar yr un pryd gyda chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth – Sarah Andrews | Tîm Adolygu'r AGLI<br>Goruchwylwyr Bydwragedd BIPBC<br><br>Sarah Andrews | Ysbyty Gwynedd |
| 15:00 | Cyfarfod gyda bydwragedd Ysbyty Gwynedd | Tîm Adolygu'r AGLI<br>Bydwragedd Ysbyty Gwynedd | Ysbyty Gwynedd, Ystafell Heulwen |
| 15:30 | AMSER PANED | | |
| 15:45 | Cyfarfod gyda bydwragedd dan hyfforddiant | Tîm Adolygu'r AGLI<br>Bydwragedd dan hyfforddiant | Ysbyty Gwynedd, Ystafell Heulwen |
| 16:15 | Cyfarfod gyda'r Dirprwy Bennaeth Staff ar gyfer gweithrediadau (Rheolwr Cyffredinol) | Tîm Adolygu'r AGLI<br>Dr. Glynne Roberts | Ysbyty Gwynedd, Ystafell Heulwen |
| 16.45 | CLOI<br>Tîm Adolygu'r AGLI i deithio yn ôl i'r gwesty (cludiant i gael ei ddarparu gan Oruchwylwyr Bydwragedd BIPBC) | | |

**AGLl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

**Rhaglen Archwiliad Blynyddol o Safonau ar gyfer Goruchwylio Bydwragedd**

**Archwiliad yr AGLl o Oruchwyliaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Dydd Mercher 14 Hydref 2015 (Diwrnod 2)**

**Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan ac yna Ysbyty Maelor, Wrecsam**

**Tîm Adolygu'r AGLl**

Sue Jose: Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl

Karen Evans: Goruchwylydd Bydwragedd, BIPABM

Elizabeth David: Adolygydd Lleyg yr AGLl

**Agenda**

| Amser | Cyfarfod/Eitem | | Presennol | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| **8:15** | **Cludiant o'r gwesty gan Oruchwylwyr Bydwragedd BIPBC i gychwyn am 9am** | | | |
| **9:00** | **Taith glinigol o gwmpas yr uned, cyfarfod gyda defnyddwyr gwasanaeth** | | **Tîm Adolygu'r AGLl Goruchwylwyr Bydwragedd BIPBC** | **Ysbyty Glan Clwyd** |
| **9:30** | **Cyfarfod gyda Bydwragedd** | **Paned ar yr un pryd** | **Tîm Adolygu'r AGLl** | **Ystafell Parry Jones** |
| **10:00** | **Cyfarfod gyda Myfyrwyr** | **Paned ar yr un pryd** | **Tîm Adolygu'r AGLl** | **Ystafell Parry Jones** |
| **10:30** | **Teithio i Ysbyty Maelor Wrecsam (cludiant i gael ei ddarparu gan Oruchwylwyr Bydwragedd BIPBC)** | | | |
| **11:30** | **Taith o gwmpas yr ardal glinigol - Maelor Wrecsam, cyfarfod gyda defnyddwyr gwasanaeth.** | | **Tîm Adolygu'r AGLl Goruchwylwyr Bydwragedd BIPBC** | |
| **12:00** | **Cyfarfod gyda Bydwragedd/Arweinwyr Risg** | | **Tîm Adolygu'r AGLl Gill Murnane Gaynor Lloyd Mandy Kyffin Jill Harrison** | **Ystafell Grefft Cleifion – Clinig Cynenedigol** |
| **12:30** | **CINIO (FFREUTUR YR YSBYTY)** | | | |

| Amser | Cyfarfod/Eitem | Presennol | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| **13:00** | **Cyfarfod gyda Bydwragedd** | **Tîm Adolygu'r AGLI bydwragedd** | **Ystafell Grefft Cleifion – Clinig Cynenedigol** |
| **13:30** | **Cyfarfod gyda Bydwragedd dan Hyfforddiant** | **Tîm Adolygu'r AGLI bydwragedd Ysbyty Gwynedd** | **Ystafell Grefft Cleifion – Clinig Cynenedigol** |
| **14:00** | **Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi canfyddiadau** | **Tîm Adolygu'r AGLI** | **Ystafell Grefft Cleifion – Clinig Cynenedigol** |
| **15:30** | **AMSER PANED** | | |
| **15:45** | **Adborth i Benaethiaid Bydwreigiaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Tîm Adolygu'r AGLI Penaethiaid Bydwreigiaeth Goruchwylwyr Bydwragedd BIPBC** | **Ystafell Grefft Cleifion – Clinig Cynenedigol** |
| **17.00** | **CLOI**<br><br>**Tîm Adolygu'r AGLI i deithio yn ôl ar y trên o Wrecsam** | | |

**Atodiad B**

**Rhestr o Gyfranogwyr yn y broses Archwilio Blynyddol –**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Cyfarwyddwr Nyrsio – Angela Hopkins**

**Pennaeth Bydwreigiaeth – Fiona Giraud**

**Uwch Reolwyr Bydwreigiaeth - Heledd Jones, Sharn Jones, Sali Williams, Dave Farmer, Sian Youssef, Julie Reeve, Jan Quarmby**

**Bydwragedd Risg / Llywodraethu - Gill Murnane, Gaynor Lloyd**

**Rheolwr arweiniol – Dwyrain - Jill Harrison**

**Cynrychiolydd Coleg Brenhinol y Bydwragedd - Kath Jones**

**Bydwraig Arweiniol dros Addysg (Prifysgol Bangor) - Lynne Edgerton**

**Rheolwr Cyffredinol - Dr Glynne Roberts**

**Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth - Sarah Andrews**

**Aelod o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd - Julie Hurford, Maureen Wolfe, Jo Lavery**

**Cyfarfuwyd â nhw gan Dîm yr AGLl - Sue Jose, Karen Evans, Liz David, Julie Jones (Swyddfa TS LlC)**

**Bydwragedd yn adrannau Clinigol Ysbyty Gwynedd**

**Bydwragedd yn adrannau Clinigol Ysbyty Glan Clwyd**

**Bydwragedd yn adrannau Clinigol Ysbyty Maelor Wrecsam**

**Bydwragedd dan Hyfforddiant (Prifysgol Bangor)**

**Ymddiheuriadau: Mandy Kiffin (Bydwraig Risg)**